

Cynllunio a Sŵn

1. Beth yw nod y canllaw?

Diben y ddogfen hon yw darparu cyngor i ddatblygwyr ac ymgynghorwyr sy'n ymwneud â datblygiadau lle bo angen caniatâd cynllunio a lle bo sŵn yn cael ei ystyried. At ddibenion gwybodaeth yn unig y mae'r ddogfen hon a'r gobaith yw y bydd yn darparu cyngor defnyddiol a chryno i ddatblygwyr mewn perthynas â sŵn yn ystod y cam cynllunio. Nid yw'r canllaw hwn yn ystyried pob math o ddatblygiad a ffynhonnell sŵn.

2. Pryd bydd angen arolwg ac adroddiad sŵn?

Mae'n bosibl y bydd angen arolwg ac adroddiad sŵn ar gyfer cais cynllunio neu gais cynllunio llawn. Mae'n debygol y bydd angen arolwg ac adroddiad sŵn yn y sefyllfaoedd canlynol:

- **bydd y cais arfaethedig yn sensitif i sŵn** ac mae'n debygol yr effeithir arno gan ffynonellau sŵn presennol. Er enghraifft, datblygiad tai ger ffordd brysur, rheilffordd neu weithgarwch masnachol.
- **mae'r cais arfaethedig yn debygol o greu sŵn** y mae'n bosibl y bydd yn effeithio ar eiddo cyfagos sy'n sensitif i sŵn. Er enghraifft, gweithgarwch masnachol newydd ger eiddo preswyl presennol.

3. Beth yw'r fantais o ran ystyried sŵn yn ystod y cam cynllunio?

- mae'r ffynhonnell sŵn yn cael ei deall a'i mesur yn llawn
- er mwyn ystyried addasrwydd y cais arfaethedig
- mae'r holl dderbynyddion cyfagos sy'n sensitif i sŵn wedi'u nodi
- mae'r effaith ar unrhyw dderbynyddion wedi'i phennu gan gyfeirio at safonau sŵn
- manylir ar fesurau rheoli pan fydd angen er mwyn lleihau'r sŵn i lefelau derbyniadwy. Er enghraifft, gosod ffenestri gwahanol i gyrraedd y safonau o ran sŵn y tu mewn.

Rydym yn sylweddoli bod rhoi ystyriaeth o'r fath i sŵn fel rhan o'r broses o wneud cais am ganiatâd cynllunio yn gallu bod yn gostus i'r datblygwyr ac yn gallu cymryd llawer o amser. Fodd bynnag, mae wedi'i brofi bod costau datrys unrhyw broblemau sŵn ar ôl i ddatblygiad gael ei gwblhau yn debygol o fod yn uwch o lawer.

4. Pwy sy'n gallu cynnal asesiad sŵn a darparu adroddiad?

Rhaid i arolwg sŵn gael ei gynnal gan ymgynghorydd acwstig sy'n meddu ar y cymwysterau priodol. Gallwch gael rhestr o ymgynghorwyr drwy fynd i:

- www.association-of-noise-consultants.co.uk, Ffôn: 01727 896092
- www.ioa.org.uk, Ffôn: 01727 848195

5. Dyma rai enghreifftiau o'r wybodaeth a ddylai gael ei chynnwys yn adroddiad yr arolwg sŵn:

- Y rheswm dros yr adroddiad a'i gwmpas
- Disgrifiad o'r datblygiad/cais arfaethedig
- Amlinelliad o oriau gweithredu arfaethedig y datblygiad/cais arfaethedig a'r gweithgareddau safle gan gynnwys amserau dosbarthu nwyddau (os yw'n berthnasol)
- Cynllun lleoliad y datblygiad/cais arfaethedig a'r derbynnyddion tebygol, sy'n nodi'r pellter rhwng y ddau
- Cymwysterau/profiad y person sy'n cynnal yr asesiad sŵn.
- Yr offer a ddefnyddir a'r manylion/tystysgrifau graddnodi
- Y Fethodoleg Monitro Sŵn a ddefnyddir gan gynnwys lleoliad y broses monitro sŵn, yr offer a ddefnyddir, yr amodau tywydd, y dull a ddefnyddir i fonitro'r amodau tywydd, y safonau a ddilynir e.e. BS4142:2014 a/neu ei diwygiadau dilynol.
- Y rhesymau dros beidio â defnyddio'r dulliau safonol
- Y lefelau sŵn a ragwelir ar gyfer y datblygiad/cais arfaethedig gan gynnwys y fethodoleg ragweld lawn
- Effaith sŵn arfaethedig y datblygiad/cais arfaethedig ar eiddo presennol sy'n sensitif i sŵn, neu effaith y ffynonellau sŵn presennol ar eiddo arfaethedig sy'n sensitif i sŵn
- Tabl llawn o'r canlyniadau
- Cymhariaeth o ganlyniadau'r arolwg â'r safonau sŵn
- Argymhellion ar gyfer mesurau rheoli sŵn os oes angen **D.S. Mae hon yn rhan bwysig o Asesiad Sŵn**
- Cyfrifiadau llawn sy'n dangos y lleihad tebygol mewn sŵn yn sgil y mesurau rheoli a fydd yn cael eu rhoi ar waith

6. A oes gan y Cyngor unrhyw safonau sŵn ar gyfer datblygiadau?

Sylwer nid amcan ystyried sŵn yn ystod y cam cynllunio yw atal Niwsans Statudol, ond amddiffyn **amwynder** yr eiddo preswyl presennol neu eiddo preswyl newydd. Felly er mwyn cyflawni hyn, y safonau canlynol yw'r rheiny y byddem yn eu hargymell i'r Awdurdod Cynllunio fel arfer. Argymhellion yn unig yw'r sylwadau y mae Iechyd yr Amgylchedd yn eu darparu i'r adran gynllunio. Penderfyniad yr Awdurdod Cynllunio Lleol yw cynnwys yr argymhellion hyn ai peidio wrth roi/gwrthod caniatâd cynllunio.

Gwaith adeiladu/dymchwel

Byddem yn argymell y dylai gwaith adeiladu neu ddymchwel ond gael ei wneud rhwng yr amserau canlynol, oni bai bod caniatâd ysgrifenedig wedi cael ei roi gan yr Awdurdod Lleol ymlaen llaw:

Dydd Llun i ddydd Gwener - 07:30 - 18:00

Dydd Sadwrn - 08:00 - 13:00

Ni fydd unrhyw waith sy'n cynhyrchu sŵn yn cael ei wneud ar ddydd Sul, gwyliau banc na gwyliau cyhoeddus.

Bydd rhai ceisiadau'n destun asesiad sŵn i bennu effaith debygol y sŵn adeiladu/dymchwel ar eiddo sy'n sensitif i sŵn. Dylai'r asesiad hwn gael ei gynnal yn unol â safon BS5228:2009 a/neu ei diwygiadau dilynol. Dylai'r asesiad hefyd gynnwys mesurau lliniaru a fydd yn cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y sŵn yn cael ei gadw mor isel ag sy'n ymarferol bosibl.

Mae cyfarwyddyd pellach am y wybodaeth a ddylai gael ei chynnwys mewn asesiad sŵn mewn perthynas â gwaith adeiladu ar gael ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

Datblygiadau Preswyl

Dylai datblygiadau preswyl newydd neu ddatblygiadau preswyl a addaswyd gydymffurfio â'r cyfyngiadau canlynol o ran sŵn y tu mewn:

Ystafelloedd gwely (23:00 - 07:00): 30dB L_{Aeq} a 45 L_{Amax}

Ystafelloedd byw (07:00 – 23:00): 35dB L_{Aeq}

Gerddi ac ardaloedd amwynder yn yr awyr agored (07:00 - 23:00): 50dB L_{Aeq}

Mae'r cyfyngiadau hyn wedi dod o ganllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer sŵn cymunedol a safon BS8233 a/neu ei diwygiadau dilynol.

Safleoedd Adloniant

Yn achos datblygiadau sy'n gysylltiedig â safleoedd a ddefnyddir at ddibenion adloniant cyhoeddus, gan gynnwys clybiau, tafarndai, bwytai a dibenion hamddenol eraill megis lleoliadau priodas, mae'n bosibl y bydd angen Trwydded Safle (Deddf Trwyddedu 2003) hefyd. Dylai'r ymgeisydd gysylltu â'r Awdurdod Trwyddedu cyn gynted â phosibl i sicrhau bod defnydd terfynol arfaethedig y safle yn cydymffurfio â'i Bolisi Trwyddedu.

Yn ogystal, gall y datblygiadau hyn achosi trafferthion penodol, nid yn unig oherwydd bod y gweithgareddau cysylltiedig yn aml yn digwydd gyda'r hwyr ac yn y nos. Felly mae angen i ddatblygwyr gofio bod sŵn yn cael ei gynhyrchu ar y safleoedd a chofio'r problemau sŵn cysylltiedig a allai godi oherwydd cwsmeriaid yn yr ardal gyfagos. Ni ddylid diystyru'r sŵn a wneir gan draffig a chyfleusterau parcio ceir cysylltiedig.

Mae cyfarwyddyd pellach am y wybodaeth a ddylai gael ei chynnwys mewn asesiad sŵn o ran Lleoliadau Adloniant ar gael ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

Peiriannau diwydiannol/masnachol/sefydlog

Mae rhai peiriannau diwydiannol, masnachol a sefydlog yn debygol o achosi sŵn sy'n tarfu ar y preswylwyr cyfagos. Yr asesiad a ddylai gael ei ddefnyddio i bennu effaith debygol y sŵn ar eiddo sy'n sensitif i sŵn yw safon BS4142 a/neu ei diwygiadau dilynol. Mae'r asesiad hwn yn pennu effaith debygol y sŵn drwy gymharu lefel sŵn y datblygiad arfaethedig â lefelau'r sŵn cefndir yn yr ardal.

Fel arfer byddem yn argymhell na ddylai lefel sŵn datblygiadau fynd yn uwch na lefel y sŵn cefndir presennol, ond dylai'r asesiad ganfod:

- fod y lefel rhwng 0 a 5dB yn uwch na lefel y sŵn cefndir. Dylai'r asesiad sŵn ddangos bod yr holl fesurau lliniaru sy'n rhesymol ymarferol wedi'u gweithredu a bod canfyddiadau'r asesiad yn cynnwys cyd-destun yn unol â dulliau BS4142 ar gyfer pennu ac asesu sŵn diwydiannol a masnachol.
- bod y lefel yn 5dB yn uwch na lefel y sŵn cefndir. Mae'n debygol y byddwn yn gwrthod y cais cynllunio.

Systemau Echdynnu

Yn aml mae angen systemau echdynnu ar gyfleusterau cludfwyd, bwytai a chaffis. Mae'n bosibl y bydd lechyd yr Amgylchedd a'r Adain Drwyddedu'n ei gwneud hi'n ofynnol i asesiad sŵn gael ei gyflwyno ar gyfer datblygiadau o'r fath, gan ddibynnu ar faint y system echdynnu arfaethedig ac agosrwydd y system arfaethedig i eiddo preswyl. Bydd angen i'r asesiad hwnnw gael ei gynnal yn unol â safon BS4142 a/neu ei diwygiadau dilynol.

Hefyd bydd angen manylion y gwneuthurwr ar lechyd yr Amgylchedd sy'n nodi lefel pŵer y sain a lefel y pwysedd sain ar bellter penodol gan wneuthurwr y system echdynnu arfaethedig â phob cais a gyflwynir. Hefyd bydd angen i ni gael gwybod am leoliad system o'r fath.

Bridio cŵn/cynelau lletya cŵn

Gall sŵn o'r sefydliadau hyn gael effaith negyddol ar amwynder eiddo preswyl cyfagos. Felly, bydd angen i geisiadau am sefydliadau o'r fath gynnwys asesiad effaith sŵn a chynllun lliniaru. Cydnabyddir nad oes asesiad penodol sy'n ymwneud â datblygiadau o'r fath, felly argymhellir bod egwyddorion safon BS4142 a/neu ei diwygiadau dilynol yn berthnasol. Oherwydd natur sŵn cyfarth cŵn dylai'r dangosydd L_{Amax} gael ei gynnwys yn yr asesiad hefyd. Dylid cynnwys cynllun rheoli sŵn i fanylu ar y ffyrdd y bydd y cynelau'n cael eu rheoli i sicrhau bod y lefel sŵn mor isel â phosibl, megis cyfyngu ar amserau bwydo, cyfyngu ar amserau ymweld, cyfyngu ar yr amserau y caniateir i'r cŵn fod yn yr awyr agored.

Ffermydd Paneli Haul

Gall sŵn sy'n gysylltiedig â ffermydd paneli haul ddeillio o'r offer trydanol, gwrthdroyddion a'r newidyddion, sy'n cael eu cadw mewn clostiroedd neu gynhwysyddion ar y safle. Fel arfer, yn achos datblygiadau o'r fath, byddai amod megis BS4142 sy'n cyfyngu ar lefel y sŵn i beidio â mynd yn uwch na'r sŵn cefndir yn berthnasol.

Tyrbinau Gwynt

Mae'r Awdurdod wedi cyhoeddi canllaw manwl sy'n amlinellu'r hyn y mae angen ei ystyried wrth gyflwyno ceisiadau cynllunio am dyrbinau gwynt. Mae cyfarwyddyd pellach am y wybodaeth a ddylai gael ei chynnwys mewn asesiad sŵn ar gyfer tyrbinau gwynt/ffermydd gwynt ar gael ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

Amodau Model

Mae'r ddogfen hon yn pennu'r amodau cynllunio a argymhellir. Nid ydynt yn berthnasol i bob datblygiad ond maent yn cynnig canllaw o ran defnyddio amodau cynllunio, wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr ac mae'n bosibl na fydd amod sy'n berthnasol i amgylchiadau neu bynciau penodol. Mae'n bosibl y bydd angen creu neu ddiwygio amod er mwyn ei wneud yn fwy priodol i'r datblygiad arfaethedig.

1. Ni fydd lefel y sŵn sy'n deillio o'r datblygiad/cais arfaethedig yn uwch na lefel y sŵn cefndir. Bydd y lefelau sŵn yn cael eu pennu yn y safle sensitif i sŵn agosaf neu mewn lleoliad arall yr ystyrir ei fod yn addas gan yr awdurdod. Bydd y mesuriadau a'r asesiadau'n cael eu gwneud yn unol â safon BS4142 a/neu ei diwygiadau dilynol.
2. Ar gais ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol, bydd y gweithredwr cyn pen cyfnod o 1 mis yn cyflwyno i'r awdurdod asesiad sŵn sy'n cydymffurfio â safon BS4142 a/neu ei diwygiadau dilynol er mwyn pennu a yw'r sŵn sy'n deillio o'r datblygiad yn uwch na'r lefel a nodir yn amod 1 uchod. Bydd yr asesiad yn cael ei gynnal o dan oruchwyliaeth yr Awdurdod Lleol. Pe bai'r lefel yn uwch na'r hyn a nodir yn Amod 1, yna bydd yr arolwg a gyflwynir hefyd yn cynnwys mesurau lliniaru i sicrhau bod lefel y sŵn yn cydymffurfio â'r hyn a nodir yn Amod 1. Yna bydd y datblygiad yn cael ei gyflawni yn unol â'r manylion cymeradwy.
3. Ni fydd nwyddau'n cael cyrraedd na gadael y safle rhwng 23:00 a 07:00 nac ar unrhyw adeg ar ddydd Sul, gwyliau banc neu wyliau cyhoeddus, er mwyn sicrhau tawelwch yn ystod y nos.

4. Dim ond rhwng hh:mm a hh:mm o ddydd Llun a dydd Gwener, hh:mm a hh:mm ar ddydd Sadwrn a hh:mm ar ddydd Sul y bydd y defnydd a ganiateir drwy hyn yn cael ei weithredu, ac nid ar unrhyw adeg ar wyliau banc neu wyliau cyhoeddus.
5. Dylid cynnal Asesiad Effaith Sŵn er mwyn rhagweld pa effaith y bydd y datblygiad yn ei chael ar yr ardal gyfagos yn ei chyfanrwydd. Dylai'r Asesiad Effaith Sŵn restru unrhyw wasanaethau/peiriannau/offer sy'n debygol o greu sŵn. Dylai'r gwasanaethau/peiriannau/offer gael eu nodi ar gynllun lleoliad a dylai cyfnod y sŵn penodol a'r lefelau sŵn a ragwelir yn yr eiddo amrywiol sy'n sensitif i sŵn gael ei nodi.
6. Dylid cyflwyno Cynllun Rheoli Sŵn i'r Awdurdod cyn dechrau ar y datblygiad. Dylai'r Cynllun Rheoli roi sylw i gyfnod adeiladu'r datblygiad arfaethedig a bydd yn cynnwys y cyfnodau mwyaf swnllyd wedi'u trefnu yn ôl maint y sŵn, hyd y cyfnodau a manylion y mesurau lliniaru a fydd yn cael eu gweithredu i leihau'r sŵn yn ystod y cyfnod adeiladu ar y safle preswyl cyfagos. Bydd y cynllun yn cydymffurfio â'r cyfarwyddyd yn safon BS5228 a/neu ei diwygiadau dilynol.
7. Yn ystod y cyfnodau dymchwel ac adeiladu, ni fydd unrhyw waith na gwaith dymchwel/adeiladu yn cael ei wneud rhwng XX a XX o ddydd Llun i ddydd Gwener neu rhwng XX a XX ar ddydd Sadwrn. Ni wneir unrhyw waith ar ddydd Sul nac ar wyliau banc neu wyliau cyhoeddus.
8. Gan fod y datblygiadau arfaethedig wedi'u lleoli mewn ardal sy'n un breswyl yn bennaf, argymhellir lleihau'r sŵn sy'n tarfu drwy wneud y gwaith adeiladu gan gydymffurfio â safon BS5228 a/neu ei diwygiadau dilynol.